

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett; Cynghorydd NAME B.E. Brooks; Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, M.R. Wilkinson, E. Williams a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I. J. Johnson.

C40 CYHOEDDIAD -

Estynnodd yr Arweinydd groeso i'r holl bartion i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd pawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod, o dan Bolisi Aml-leoliad y Cyngor, yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio i'w archifo ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar sail hybrid gyda rhai Aelodau Cabinet yn cymryd rhan yn y Siambr a rhai mewn lleoliadau eraill.

Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet gadw eu camera ymlaen tra'r oeddent yn siarad yn ystod y cyfarfod; pe bai'r Aelodau'n dymuno siarad, dylent godi eu llaw ar y sgrin, neu nodi hynny yn y cyfleuster sgwrsio.

Er budd y rhai a oedd yn gwyllo ar-lein, gofynnodd yr Arweinydd a ellid cyfyngu ar y defnydd o'r cyfleuster sgwrsio i sicrhau bod yr holl drafodaethau'n cael eu cynnal yn y cyfarfod ei hun, onid oedd yr Aelodau am ddweud eu bod yn dymuno siarad, neu'n profi problemau gyda'r camera neu'r sain.

O ran pleidleisio ynghylch argymhellion, pe bai rhywun yn cadw'n dawel, heb fynegi anghytundeb ag argymhelliad, ystyrid eu bod yn cytuno â'r argymhelliad hwnnw.

C41 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

C42 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C43 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD CANLLAWIAU A CHYFARWYDDIADAU STATUDOL LLYWODRAETH CYMRU A WNAED O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000, MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 (CYF) –

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 13 Gorffennaf, 2022.

Rhoddodd yr Arweinydd grynodedb o'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu a Pherfformiad Corfforaethol yn rhan o'r mater a gyfeiriwyd, ac roedd y Cabinet yn nodi a chefnogi'r argymhellion hynny.

Adleisiodd yr Arweinydd yr argymhelliad i sicrhau adnoddau digonol i'r Tîm Gwasanaethau Democraataidd er mwyn mynd i'r afael ag agweddau fel gwasanaethau gwybodaeth, ymchwil a chymorth ychwanegol i'r holl Aelodau Etholedig, er mwyn dwyn y Cabinet a'r Cyngor i gyfrif ac i gynnal trafodaeth fwy effeithiol ar faterion allweddol.

Ar ôl ystyried y mater a gyfeiriwyd,

PENDERFYNWYD - y dylid nodi penderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros y penderfyniadau

Yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

C44 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO – (CYF) -

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 13 Gorffennaf, 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyfeiriad a gafwyd cyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu, a nododd yr ymgysylltu cadarnhaol a'r trafodaethau manwl a gynhaliwyd yn y cyfarfod, yna cyfeiriodd at Argymhelliad 3 a oedd wedi'i gynnwys yn y mater a gyfeiriwyd, a nodai:-

(3) Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, y dylid cyfeirio'r adroddiad i sylw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried gyda sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cabinet, a chyfeirio unrhyw sylwadau pellach yn ôl i'r Cabinet.

Gan mai mater ar gyfer Craffu cyn penderfynu oedd dan sylw, a bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol wedi gofyn am gael cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, cynigiodd yr Arweinydd y dylid cyfeirio'r mater i sylw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried yn llawn, ac wedyn ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ystyried yn derfynol.

No.

Cytunodd y Cabinet y byddai Argymhelliad (4) fel yr oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn dal i fod yn briodol.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad, ac Argymhelliad (3) yn benodol,

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid nodi'r adroddiad ac, ar gais y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, cyfeirio'r mater i sylw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried yn llawn cyn ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ystyried yn derfynol.

(2) Y dylid rhannu'r adroddiad â'r holl Aelodau Etholedig, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad, trafodaethau yn y cyfarfod a'r argymhelliad i gyfeirio'r mater i sylw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio cyn ei gyfeirio'n ôl i sylw'r Cabinet.

(2) Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r holl Aelodau etholedig ac i randdeiliaid eraill ynghylch y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

C45 CABINET PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD -

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2022, fel yr oeddent wedi'u cynnwys yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd fod cofnodion Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cael eu cyflwyno i'r Cabinet er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o'r materion a drafodwyd, a byddent yn cael eu rhannu drwy'r Cabinet pan fyddent ar gael. Dywedodd y symudwyd ymlaen â llawer o'r materion a drafodwyd ers y cyfarfod hwnnw, ac y byddai newyddion pellach yn cael ei roi'n rheolaidd i'r Aelodau wrth i faterion fynd rhagddynt.

PENDERFYNWYD - y dylid nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2022.

Rheswm dros y penderfyniad

Nodi'r cofnodion

C46 CAU CYFRIFON 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -

Roedd yr adroddiad yn ceisio hysbysu'r Cabinet ynghylch sefyllfa ariannol amodol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Roedd sefyllfa'r refeniw ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys amrywiant negyddol o £13k ar ôl trosglwyddiadau net o £18.151m i'r cronfeydd, a oedd yn cynnwys £642k a drosglwyddwyd i Gronfa'r Cyngor, £18.818m a drosglwyddwyd i gronfeydd penodol o refeniw, £118k a dynnwyd i lawr o'r Gronfa Yswiriant ac £1.191m a dynnwyd i lawr o'r cronfeydd wrth gefn i gyllido'r rhaglen gyfalaf. Roedd Cronfa'r Cyngor bellach yn £12.510m ar 31 Mawrth, 2022.

Gosodwyd targed arbedion refeniw o £500k ar gyfer 2021/22, a bu diffyg o £120k yn erbyn y targed hwn yn y flwyddyn. Byddai llwyddiant i sicrhau'r arbedion hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod 2022/23.

Roedd y Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi gallu cynyddu lefel ei gronfa wrth gefn neilltuedig i £17.439m ar ôl sicrhau gwarged o £5.439m.

Yn wahanol i'r modd y cyflwynwyd adroddiadau'n flaenorol, dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad bellach wedi'i rannu ar sail cyfalaf a refeniw er rhwyddineb.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.
- (2) Cymeradwyo cyllideb ddiwygiedig derfynol 2021/22 fel y'i dangosir yn Atodiad 1.
- (3) Cyfeirio'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cymeradwyo'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.
- (2) Cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 ar gyfer cynyddu'r Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.
- (3) Galluogi'r Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am gyllid i adolygu sefyllfa diwedd y flwyddyn.

C47 CAU CYFRIFON CYFALAF 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet ynghylch sefyllfa ariannol amodol Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Gwariwyd £66.411m o gyfalaf yn ystod y flwyddyn, a olygai fod angen tynnu £1.191m i lawr o'r cronfeydd wrth gefn.

Dywedodd yr Arweinydd y dylid canmol cyflawniad y rhaglen gyfalaf, a gwariant o £66.411m, a ninnau'n adfer ar ôl y pandemig ac yn dychwelyd i 'fusnes fel arfer'. Cyfeiriodd at brosiectau sy'n cael eu cyflawni'n rhan o Brosiect Sero ac ymrwymadau Cynllun y Cyngor ar gyfer Her yr Hinsawdd, gan nodi bod y £30m a wariwyd ar y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu wedi esgor ar bum ysgol newydd y flwyddyn gynt, a bod gwaith adeiladu wedi dechrau ar safle'r Glannau ym mis Ionawr 2022, bod 12 o gerbydau trydan wedi'u prynu a £2m wedi'i wario ar ailwynebu priffyrdd.

Roedd cynlluniau wedi cael eu gohirio, yn bennaf oherwydd yr hinsawdd economaidd gyfredol a oedd wedi cynyddu cost deunyddiau a llafur ac wedi arwain at drafodaethau pellach â chontractwyr ac ailbeiriannu.

Roedd £1.191m wedi cael ei dynnu i lawr o'r cronfeydd wrth gefn, a oedd yn llawer is nag a gynlluniwyd oherwydd nifer y grantiau a dderbyniwyd yn hwyr.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran cyfalaf ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22.
- (2) Cyfeirio'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y sefyllfa o ran cyfalaf ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22.
- (2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am gyllid i adolygu sefyllfa diwedd y flwyddyn.

C48 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -

Yr adroddiad adolygu blynyddol ar Reoli'r Trysorlys oedd yr adroddiad a gyflwynwyd gerbron y Cabinet.

No.

2021/22.

Cafwyd gostyngiad o £1.086m yng ngofyniad benthycyca'r Cyngor yn 2021/22 gan greu cyfanswm Gofyniad Cyllid Cyfalaf o £197.675m ar 31 Mawrth 2022. Ar yr un dyddiad, roedd y Cyngor yn dal £153.247m o fenthyciad allanol gros. Roedd y Cyngor felly'n tanfenthycyca £44.328m ar 31 Mawrth, 2022.

Roedd Benthyciadau Allanol y Cyngor ymhell oddi mewn i'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol a bennwyd ar gyfer 2021/22.

Roedd y Cyngor yn dal benthyciadau o £140.502m gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), £0.500m o fenthyciadau consesiwn gan Lywodraeth Cymru (LIC), £4.000m o fenthyciadau'r farchnad, £0.550m o fenthyciadau canol tref, £1.695m o fenthyciadau Salix a £0.100m o fenthyciad dros dro ar 31 Mawrth 2022.

Derbyniodd y Cyngor fenthyciad o £8.000M gan PWLB i ailgyllido dyled a oedd yn aeddfedu.

Parhaodd y Cyngor i gyllido Gwariant Cyfalaf o £4.132m o fenthyciadau mewnol.

Priodolwyd tir gwerth cyfanswm o £0.740m rhwng y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Chyfrif y Gronfa Gyffredinol yn 2021/22.

Yn ystod 2021/22, ychwanegodd y Cyngor Gyfrifon Rhybudd Corfforaethol gyda Santander Bank PLC fel offeryn buddsoddi newydd, a pharhaodd i fuddsoddi arian gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu, Cronfeydd y Farchnad Arian, Biliau'r Trysorlys a Chyfrifon Adnewo Lloyds Bank PLC. Roedd y Cyngor yn dal £93.620m o fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2022.

Dywedodd yr Arweinydd fod Aelodau newydd wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ar Reoli'r Trysorlys gan bartneriaid allanol.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD – y dylid cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2021/22 a chyfeirio'r adroddiad i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Derbyn a chyfeirio'r adroddiad i sylw'r Cyngor.

C49 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd yn gysylltiedig â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Mai, 2022.

No.

Byddai sefyllfa'r refeniw ar gyfer 2022/23 y parhau i fod yn heriol i'r Cyngor, o safbwynt gweithredol ac ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig Covid-19. Er bod y rhan fwyaf o gyllid Covid gan Lywodraeth Cymru bellach wedi dod i ben, roedd ffrydiau cyllid yn parhau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, rhai elfennau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw daliadau hunanynysu a oedd yn weddill. Cafodd cronfa gyffredinol o £1.249m ei sefydlu ar gyfer yr ymateb i Covid yn ystod 2021/22 er mwyn helpu i liniaru peth o'r pwysau'n gysylltiedig â hynny yn 2022/23.

Roedd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 y gysylltiedig â thaliadau ynni sefydlog, chwyddiant cyffredinol - yn enwedig mewn meysydd fel trafndiaeth i'r ysgol, ac roedd pwysau ar staff ar draws gwasanaethau, a byddai angen monitro hyn yn ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi cael ei osod ar gyfer y flwyddyn, ac roedd gwasanaethau ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyrraedd eu targedau. Roedd rhai problemau'n parhau o ran targedau arbed nad oeddent wedi'u cyrraedd mewn blynyddoedd cynt.

Roedd amrywiannau negyddol wedi'u rhagweld ar gyfer rhai gwasanaethau yn y flwyddyn gyfredol, a byddai angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i ddatrys hynny yn y tymor byr.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa yn gynnar yn y flwyddyn, ac y byddai dadansoddiad manylach ar gael yn rhan o'r adroddiad monitro nesaf ym mis Medi 2022.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau sydd eu hangen yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi gwybod i'r Cabinet beth fydd yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2022/23.
- (2) Ail-alinio'r cyllidebau.

C50 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Mai, 2022, ac yn gofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf. Gellir gweld y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r newidiadau a geisiwyd i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd canlynol.

Dywedodd yr Arweinydd fod cynllun yr adroddiad wedi newid ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gynnwys tabl cryno o'r manylion yn yr Atodiad a oedd bellach wedi'i gynnwys yng nghorff yr adroddiad, er mwyn gallu cyfeirio ato'n rhwydd. Byddai adroddiadau pellach yn canolbwyntio ar gyflawniad ac ar y budd i gymunedau y sgil buddsoddi.

Roedd pwysau chwyddiant sylweddol yn effeithio ar y Rhaglen Gyfalaf ar hyn o bryd, yn sgil yr hinsawdd economaidd gyfredol. Roedd hynny wedi arwain at drafodaethau pellach â chontractwyr, aildendro rhywfaint o waith i gontractwyr, a gwaith peirianeg ar brosiectau i leihau costau, yn ogystal â phroblemau'n gysylltiedig ag amseru er mwyn cyflawni rhai prosiectau. Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos i ganfod achosion o orwario ac o lithriant. Roedd y Tîm Cyfrifeg yn gwneud darn o waith i nodi pwysau chwyddiant o fewn cynlluniau a gymeradwywyd eisoes, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno ar hyn ymhen amser.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at baragraff 2.18 yr adroddiad a drafodai oleuadau stryd ar hyd Frampton Lane. Roedd hyn yn fater yr oedd etholwr wedi cyfeirio i'w sylw eisoes. Roedd arian A106 wedi'i ganfod i weithredu'r cynllun a oedd bellach yn diogelu pobl a oedd yn cerdded yn yr ardal gyda'r nos.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at bwysigrwydd bwrw ymlaen â chynllun yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff, a dywedodd y byddai'r gostyngiad yn nifer y teithiau a gyflawnir mewn cerbydau yn rhan o cyfraniad y Cyngor at leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

- (1) Y dylid nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- (2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau.
- (3) Y dylid nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig yn gysylltiedig â'r canlynol:

No.

- Paneli PV y Rhaglen Datgarboneiddio Ysgolion - Defnyddio £16k o'r Gronfa Rheoli Ynni i gynyddu cyllideb y cynllun.
- Hen Neuadd y Bont-faen, Adnewyddu gorchuddion y to ac Addasiadau Mewnol yn Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes - Trosglwyddo £41k o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer Adnewyddu Asedau Addysg, gan ddyrannu £27k o'r arian i adnewyddu gorchuddion to Hen Neuadd y Bont-faen, ac £14k i wneud gwaith addasu mewnol yn Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes.
- Goleuadau Stryd ar hyd Frampton Lane - Defnyddio arian A106 i ychwanegu £20k at Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Parc Seel - Celf Gyhoeddus - Defnyddio arian A106 i ychwanegu £20k at Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Rhaglen Gwella Tai - Dyrannu cyllideb 2022/23 i'r cynllun, fel y manylir ym mharagraff 2.19.
- Addasiadau Mewnol yn Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes - Defnyddio arian A106 i ychwanegu £70k at Raglen Gyfalaf 2022/23.

(4) Y dylid nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng fel y manylir yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

(5) Y dylid cymeradwyo'r newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd wedi hynny:

- Palmant Maes Chwarae Ysgol Gynradd Colcot – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £17k, i'w gyllido drwy gyfraniad o gyllideb refeniw'r ysgol.
- Ysgolion Bro – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £910k, i'w gyllido drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Ystâd Fasnachu'r Iwerydd – Parcio Fflyd Gweithrediadau – Cario £690k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24 a sicrhau cynnydd o £1,849k i Raglen Gyfalaf 2023/24, gan gyllido hynny o gronfa wrth gefn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff a £1m mewn derbyniadau Cyfalaf.
- Pafiliwn Pier Penarth – Ychwanegu £35k at Raglen Gyfalaf 2022/23, i'w gyllido o'r gyllideb refeniw Polisi.
- To Cysgodfan y Dwyrain - Trosglwyddo £73k o gynllun Cysgodfan y Dwyrain i Gynllun Adnewyddu Cysgodfan y Dwyrain a Phromenâd ac ANPR Ynys y Barri
- GALLUOGI - Ychwanegu £161k at Raglen Gyfalaf 2022/23 i'w gyllido drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- Pafiliwn Belle Vue – Ychwanegu £25k at Raglen Gyfalaf 2022/23, wedi'i gyllido drwy grant ychwanegol o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.
- System Archifo TGCh Oracle - Cynnwys y cynllun hwn yn
- Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £100k a gyllidir o'r gronfa TGCh.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf.

(2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf.

- (3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.
- (4) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Bwerau Argyfwng.
- (5) Galluogi cynlluniau i fynd rhagddynt yn y flwyddyn ariannol gyfredol a'r blynyddoedd ariannol nesaf.

**C51 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI
BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU – I
GYD) -**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 4 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2021 a 31 Mawrth, 2022 o ran cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 y Cyngor yn unol ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol.

Pwrpas y cyflwyniadau a atodwyd (yn Atodiad A) oedd rhoi trosolwg i'r Cabinet o berfformiad diwedd y flwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Roedd hyn cyn yr Hunanasesiad manylach ar gyfer 2021/22 a fyddai'n cael ei adrodd gerbron yr holl Bwyllgorau Craffu, y Cabinet, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ddechrau mis Tachwedd 2022.

Dyfarwyd statws perfformiad Gwyrdd yn Ch4 i bob un o 4 Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol, i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol ac ystyried yr heriau parhaus a ddeilliai o'r pandemig.

Dyfarwyd statws perfformiad Gwyrdd i 89% (287 o 321) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter, a statws coch i 11% (34) o'r gweithgareddau cynlluniedig.

O'r 34 o gamau gweithredu y dyfarwyd statws perfformiad coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd 29% (10) yn deillio'n uniongyrchol o fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a weithredwyd mewn ymateb i effaith pandemig parhaus COVID-19. Mewn perthynas â'r meysydd hynny, roedd gwaith bellach yn ailgychwyn yn rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor lle bo'n briodol. Adroddwyd wrth yr aelodau am gynnydd yn gysylltiedig ag adfer ar ôl y Coronafeirws yn y cyflwyniad a oedd y cyd-fynd â'r adroddiad ar berfformiad yn y Pwyllgor Craffu, gan ganolbwyntio at dynnu sylw at faterion a oedd yn berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor. Roedd y newyddion diweddaraf am yr adferiad yn dilyn y Coronafeirws yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad fesul chwarter i sicrhau bod yr aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith eu Pwyllgorau perthynol. O ran hyn, gofynnwyd i'r aelodau nodi'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r adferiad yn dilyn y Coronafeirws.

O'r 149 o fesurau perfformiad sydd wedi'u halinio â'r Amcanion Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 67 o fesurau lle'r oedd

No.

statws perfformiad yn berthnasol. Dyfarnwyd Statws perfformiad Gwyrdd i 72% (48) o'r mesurau, statws ambr i 7% (5) a statws coch i 21% (14) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol i 82 o fesurau. Roedd 45 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau hynny a oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2021/22, y mesurau hynny o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu a gynhaliwyd mewn ymateb i effaith barhaus pandemig COVID-19 (22) a'r mesurau hynny lle nad oedd data ar gael ar gyfer y cyfnod am resymau heblaw COVID (15).

O ran yr 14 o fesurau y dyfarnwyd statws perfformiad Coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at y ffaith bod 64% (9) wedi methu'r targed.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau unioni a gynigiwyd i ymdrin ag agweddau lle nodwyd tanberfformiad.

Roedd y 5 Pwyllgor Craffu wedi adolygu adroddiadau perfformiad chwarter 4 rhwng 5 ac 13 Gorffennaf, 2022, ac ar ôl eu hystyried, wedi nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â Chynllun Cyflawni Blynnyddol 2021/22 ac adfer wedi'r Coronafeirws.

Roedd yr adroddiad hwn yn gofyn i'r Cabinet ystyried safbwyntiau ac argymhellion Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â pherfformiad Ch4, a chymeradwyo'r camau unioni a nodwyd yn sail i fynd i'r afael ag agweddau lle ceir tanberfformio, ac i fynd i'r afael â'r prif heriau a nodwyd.

Yn ogystal â hynny, gofynnwyd i'r Cabinet nodi canlyniadau perfformiad cyffredinol gwasanaethau hyd yma, a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2021/22, sydd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau.

(2) Y dylid nodi safbwyntiau ac argymhellion yr holl Bwyllgorau Craffu mewn perthynas â chanlyniadau perfformiad Ch4, a chymeradwyo'r camau unioni a nodwyd yn sail i fynd i'r afael ag agweddau lle ceir tanberfformio, ac i fynd i'r afael â'r prif heriau a nodwyd.

(3) Y dylid nodi'r cynnydd a wneir drwy strategaeth adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn rhoi darlun clir o'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy'n anelu i newid bywydau dinasyddion Bro Morgannwg er gwell.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni y Cyngor gofynion perfformiad, fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac i adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef ei fod yn gwneud y cyfraniad gorau posib tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru.

(3) Sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'r Pwyllgorau Craffu perthynol.

C52 MAES LLAFUR CYTŪN AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG YM MRO MORGANNWG (ACG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) -

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau'r Cabinet ystyried y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Mro Morgannwg yn rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Roedd y maes llafur cytunedig yn cynnwys manylion ynghylch dysgu ac addysgu elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â Chwricwlwm Cymru, ar gyfer holl ysgolion Cyngor Bro Morgannwg a lleoliadau a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.

Roedd y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi cael ei ddrafftio'n unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Roedd yn ofynnol i'r holl ysgolion a gynhelir yn ardal Cyngor Bro Morgannwg roi 'sylw digonol' i'r maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth ddylunio eu cwricwlwm. Roedd hi'n ddyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg i adolygu'r maes llafur cytunedig bob pum mlynedd.

Roedd maes llafur cytunedig Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod bod ymagwedd Fframwaith Cwricwlwm Cymru yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd, ac felly roedd maes llafur cytunedig Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod ac yn adlewyrchu ymreolaeth pob ysgol a lleoliad wrth wireddu ei ch/gwricwlwm ei hun.

Byddai maes llafur cytunedig Cyngor Bro Morgannwg yn dod i rym o 1 Medi, 2022.

“Roedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i Gymru, ac yn orfodol i bob dysgwr o 3 i 16 oed. Roedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i gynnwys ym maes y Dyniaethau. Roedd y maes hwnnw'n cynnwys daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes. Roedd llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy yn gyffredin rhwng y

No.

disgyblaethau hynny, a hefyd yn cynnwys eu casgliad unigryw eu hunain o wybodaeth a sgiliau."

Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Williams gymryd yr eitem gan mai'r Cynghorydd Williams oedd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog (SAC) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dywedodd y bu newidiadau sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bod dogfennau ategol yn cael eu darparu i athrawon ac ysgolion, gyda mwy yn cael eu datblygu dros y misoedd nesaf, a'r gwaith ymgysylltu'n parhau. Mynegodd ddiolch i un o'r Cynghorwyr o Gonsortiw m Canolbarth y De am ei gymorth i lunio llawer o'r deunydd, a hefyd i Ysgrifennydd y Consortiw m hwnnw.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD – y dylid cymeradwyo argymhelliad Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig Bro Morgannwg i fabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Mro Morgannwg (a geir yn Atodiad A) yn rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ymhlith gofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Roedd yn orfodol i'r Cyngor gynhyrchu a mabwysiadu maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a oedd yn berthnasol i'r holl ddysgwyr, o 3 i 16 oed mewn ysgolion ac mewn lleoliadau a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.

C53 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU IAITH CYMRU 2021-22 (ACG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT A PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Fonitro'r Gymraeg a diweddariad ynghylch y Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd.

Yn ystod 2015, anfonodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Cyngor yn manylu ar y Safonau a oedd yn berthnasol i'r Cyngor. Er mwyn cyrraedd y 174 o safonau a oedd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad, aeth y Cyngor ati i greu Cynllun Gweithredu.

Roedd yn ofynnol hefyd i'r Cyngor lunio Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd yn rhan o'r broses gydymffurfio honno.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio cynnydd yn erbyn Safonau'r Gymraeg (Atodiad 1) ac yn erbyn Strategaeth Hyrwyddo'r Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg (Atodiad 2) ar gyfer 2021/22 i sylw'r Cabinet.

No.

Roedd yn crynhoi'r prif feysydd lle bu cynnydd ac yn rhoi diweddariad blynyddol, fel sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod asesiad sgiliau ieithyddol wedi'i gynllunio a fyddai'n cynnwys staff a'r holl Aelodau etholedig. Cynigiodd hefyd y dylai'r Cabinet dderbyn adroddiad cynnydd ar y strategaeth perfformiad ac ar berfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg, ar sail eithriadau, o fewn chwe mis er mwyn monitro materion yn barhaus, a chytunwyd ar hynny.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2021-22 ar Fonitro'r Gymraeg (Atodiad 1) a Diweddariad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (Atodiad 2) mewn egwyddor, yn amodol ar ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad (a'r atodiadau) i sylw'r Pwyllgor Dysgu a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried, a phe bai'r Pwyllgorau'n eu cymeradwyo, y dylid cyhoeddi'r adroddiad.

(3) Y dylai'r Cabinet ofyn am adroddiad cynnydd ar y strategaeth perfformiad, ac ar berfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg, ar sail eithriadau, o fewn chwe mis er mwyn monitro materion yn barhaus.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cyngor i gyflawni'r ddyletswydd i adrodd wrth Gomisiynydd Cymru yn rhan o Safonau'r Gymraeg.

(2) Rhoi cyfle i Bwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ystyried yr adroddiad (a'r atodiadau) cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

(3) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet, ar sail eithriadau.

C54 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL (OCI) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo aelodaeth y Panel Rhianta Corfforaethol wedi i Weinyddiaeth y Cyngor newid.

Ar ôl cytuno ar yr aelodaeth, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai cyfarfodydd wedyn yn cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn, gan ddechrau ym mis Medi 2022.

No.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD – Y dylid ailbenodi aelodau i'r Panel Rhianta Corfforaethol, ac y dylai'r aelodaeth gynnwys 2 Aelod o'r Grŵp Ceidwadol, 2 Aelod o'r Grŵp Llafur ac 1 Aelod yr un o Grŵp Plaid Cymru, Grŵp Annibynnol Llanilltud Fawr yn Gyntaf ac Aelod Annibynnol.

Rheswm dros y penderfyniad

Hwyluso rôl barhaus y Panel Rhianta Corfforaethol.